**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Llun, 25 Mawrth, 2019**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Iau, 28 Mawrth, 2019. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Iau, 4 Ebrill, 2019. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Gwener, 5 Ebrill, 2019.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams.

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Eric Jones (o eitem 13), Dylan Rees.

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd R G Parry OBE FRAgS

(10:00 y. b. tan 11:20 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Chwefror, 2019 a 7 Mawrth, 2019 (arbennig) fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Ebrill i Ragfyr 2019 fel y'i cyflwynwyd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Cerdyn Sgorio Corfforaethol – Chwarter 3, 2018/19**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid Corfforaethol. |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn adroddiad y Cerdyn Sgorio ar gyfer Chwarter 3 2018/19, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Rheoli yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ac i dderbyn y mesurau lliniaru mewn perthynas â'r meysydd hynny a amlinellir yn yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I adnabod meysydd sy'n tanberfformio o fewn y Cyngor** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Adroddiad Cynnydd ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau –**<br><br>**• Bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â'r camau a gymerwyd i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a chyflymder y cynnydd ac i gadarnhau ei fod yn fodlon i'r gwasanaeth symud ymlaen â'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth newydd fydd yn cymryd lle'r Cynllun Gwella Gwasanaeth presennol.**<br>**• Bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn monitro cynnydd y gwelliannau yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 7 **Polisi Taliadau Tai Dewisol**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r Polisi Lleol diwygiedig ar gyfer y Cynllun Taliadau Tai Dewisol (TTD) am 2019/20 a'r blynyddoedd dilynol fel y'i nodir yn Atodiad A, gan nodi y bydd y cynllun a gymeradwyir yn berthnasol am y blynyddoedd dilynol ac y bydd yn dod yn ôl gerbron y Pwyllgor Gwaith dim ond pan fydd angen ei ddiwygio yn y dyfodol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo'r Polisi Taliadau Tai Dewisol Lleol (TTD) ar gyfer 2019/20.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | 8 **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Cymeradwyo Cynllun Busnes 2019-2049 ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), ac yn arbennig cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2019-2020 i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru;**<br>• **Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer Tai am 2019-2020 fel y nodir yn y Gyllideb Cyfalaf.**<br>• **Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Deilodd Portffolio Tai, Pennaeth Gwasanaeth Tai a'r Pennaeth Swyddogaeth - Adnoddau a'r Swyddog Adran 151, i gytuno dyluniad a geiriad terfynol y Cynllun Busnes 2019 - 2049, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Cymeradwyo Strategaeth Gomisiynu a Chynllun Gwario Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**<br><br>**• Argymhellion y Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl 2019-20.**<br>**• Y dyraniad o gyllid ar gyfer pob maes Gwasanaeth, fel yr amlinellir ar dudalen 14 y Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gydymffurfio â gofynion amodau'r Rhaglen Grant Cefnogi Pobl.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Grant Plant a Chymunedau 2019/20**<br>Adroddiad ar y Cyd gan y Pennaeth Dysgu, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Phennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r Cynllun Plant a Chymunedau Drafft ar gyfer 2019-20.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gwrdd â gofynion y Fenter Ariannu Hyblyg.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Polisi Cludiant Ysgolion**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>**• Mabwysiadu'r Polisi Cludiant Ysgol diwygiedig i'w weithredu o ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd (Medi 2019).**<br>**• Nodi sylwadau'r Panel Sgriwtini Cyllid.** |

| | |
|---|---|
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Mabwysiadu Polisi Cludiant Ysgol diwygiedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 Moderneiddio Ysgolion ar Ynys Môn – Achos Busnes Llawn (ABLl) ar gyfer ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>**• Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn (ABL) ar gyfer yr ysgol gynradd newydd yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.**<br>**• Cymeradwyo cyflwyno'r Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru.**<br>**• Cymeradwyo clustnodi derbyniadau cyfalaf ar gyfer adeiladu'r ysgol gynradd newydd, ar yr amod na fydd problemau'n codi wrth werthu'r safle(oedd).**<br>**• Bod Ysgol Henblas yn cael ei thynnu o'r cynnig oherwydd y bernir bod safonau'r ysgol wedi gwella a bod nifer y disgyblion yn yr ysgol yn aros yn gyson.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I symud y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn ei blaen.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |